



## Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gynradd Llangoed

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2023**

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg

Mae Ysgol Llangoed yn ysgol hapus a chynhwysol sy'n blaenoriaethu lles disgyblion a staff yn dda. Mae naws gartrefol yr ysgol yn cefnogi bron bob disgybl i ymddwyn yn dda ac i ddangos parch a gofal am eraill. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn falch iawn o'u hysgol ac yn ymroi'n llawn i brofiadau dysgu a chwarae. Mae ganddynt ddiddordeb yn eu dysgu, ac o ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd cadarn yn ystod eu hamser yn yr ysgol.

Mae arweinwyr yn rhannu gweledigaeth glir ar gyfer darparu addysg gyflawn wedi ei seilio ar gynnal lles y disgyblion a chydweithio tuag at y dyfodol. Mae'r pennaeth wedi creu amgylchedd gofalgwr a chefnogol sy'n sicrhau ymdeimlad cryf o waith tîm. Mae hyn yn sicrhau bod pawb yn deall blaenoriaethau'r ysgol ac yn gweithio gyda'i gilydd yn gefnogol. Er hyn, nid yw prosesau hunanwerthuso'r ysgol yn ddigon miniog i ddylanwadu'n ddigon effeithiol ar y dysgu a'r addysgu.

Mae gan y staff berthynas waith effeithiol â'r disgyblion ac maent yn cefnogi eu medrau Cymraeg yn llwyddiannus. Yn gyffredinol, mae'r staff yn holi ac yn cefnogi'r disgyblion i ddwysáu eu dealltwriaeth a datblygu eu medrau yn llwyddiannus. Er hyn, mae athrawon yn dueddol i orgyfarwyddo'r dysgu sy'n llesteirio gallu disgyblion i arwain eu dysgu eu hunain. Yn ogystal, nid yw'r profiadau dysgu yn cynnig digon o gyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu gwybodaeth, dealltwriaeth a'u medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm yn ddigon cyson.

# Argymhellion

- A1 Ymateb i'r pryderon iechyd a diogelwch sy'n ymwneud â safle'r ysgol
- A2 Mireinio prosesau hunanwerthuso er mwyn sicrhau gwelliannau yn y dysgu ac addysgu
- A3 Sicrhau cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso'u medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm
- A4 Darparu cyfleoedd i ddisgyblion gymryd mwy o gyfrifoldeb am eu dysgu a datblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.



# Cyd-destun yr ysgol

Enw'r darparwr	Ysgol Gynradd Llangoed
Awdurdod lleol	Cyngor Sir Ynys Môn
Iaith y darparwr	Cymraeg
Math o ysgol	Cynradd
Nifer y disgyblion ar y gofrestr	91
Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol	61
Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol)	12
Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.0%)	16.9%
Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 16.1%)	39.5%
Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd	8.79%
Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol	0.0%
Dyddiad penodi'r pennaeth	02/09/2019
Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol)	12/01/2015
Dyddiad dechrau'r arolygiad	05/06/2023

Ⓜ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 07/08/2023

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.